ARTICULTURE

CIRCOSTRADA

EUROPEAN NETWORK FOR CONTEMPORARY CIRCUS AND OUTDOOR ARTS

Cyfle i ymuno ag Articulture ar ymweliad i:

**FRESH 2023 - Digwyddiad Rhyngwladol ar gyfer Datblygu Syrcas Gyfoes a Chelfyddydau Awyr Agored**

Mae'n rifyn arbennig eleni ym Mharis, i ddathlu 20fed pen-blwydd y

rhwydwaith!

20, 21, 22 Medi, 2023

Trefnir y digwyddiad ar y cyd gan Circostrada Network ac ARTCENA mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol a restrwyd isod. Bydd y "rendez-vous" cyffrous hwn yn dod â chwaraewyr, artistiaid, rhaglenwyr, newyddiadurwyr, ymchwilwyr, a gwneuthurwyr polisi syrcas gyfoes a chelfyddydau awyr agored ynghyd ar gyfer tridiau o drafod a dadlau brwd.

Gyda chefnogaeth gan Gelfyddydau

Rhyngwladol Cymru, mae gan Articulture y cyfle i fynd â grŵp bychan o gynrychiolwyr o Gymru i gymryd rhan yn y digwyddiad hwn, sy'n cael ei gynnal mewn sawl lleoliad ledled y brifddinas ac yn y maestrefi. Mae'r gefnogaeth ariannol yn talu am werth hyd at £940 o gostau teithio, llety a bwyd wedi'u derbynebu.

Mae'n gyfle i rwydweithio ag aelodau Circostrada o bob cwr o Ewrop a thu hwnt. Bydd sgyrsiau, perfformiadau, teithiau ac amser i gysylltu.

Bydd diwrnod arferol yn cynnwys digwyddiad mewn arddull cynhadledd

yn y bore, 2 awr o ginio rhwydweithio, ymweliadau lleoliad a pherfformiad yn y prynhawn a chymdeithasu / perfformiad gyda'r nos.

Bydd y rhaglen lawn ar gael o 15 Mai, sef y dyddiad mae cofrestru yn agor ar gyfer y digwyddiad. Gweler unrhyw ddiweddariadau ar dudalen digwyddiad Circostrada: [https://www.circostrada.org/en/actions/fresh-2023](https://www.circostrada.org/en/actions/fresh-2023)

Os ydych ar gael rhwng 20-23 Medi ac mae gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o grŵp o unigolion creadigol y

celfyddydau awyr agored, cysylltwch ag Annie ar annie@articulture-wales.co.uk neu ffoniwch hi ar 07980 337951.

Nid ydym yn gwybod pa mor hir fydd y llefydd hyn ar gael ar gyfer y digwyddiad, felly cysylltwch â ni erbyn 5pm ar 14 Mai i fynegi'ch diddordeb.

Nodwch fod yn rhaid i'r unigolion creadigol sy'n ymuno â ni fyw yng Nghymru a naill ai weithio yn y byd celfyddydau awyr agored, neu gael cysylltiad agos iddo. Bydd gofyn i bawb sy'n mynychu'r digwyddiad greu blog ysgrifenedig, fideo neu sain am yr ymweliad erbyn diwedd mis Medi.

PARTNERIAID ALLWEDDOL
Circostrada Network ac ARTCENA ar 'FRESH 2023':

La Villette; Espace Périphérique; FAI-AR- Formation supérieure d'art en espace public; Le Moulin Fondu, Centre national des arts de la rue et de l'espace public - Compagnie Oposito; Festival PRIMO 2023; Centre National de la Danse, Le Plus Petit Cirque du Monde; Le Lycée avant le lycée; L'Azimut - Pôle National Cirque en Ile-de-France -Antony/Châtenay-Malabry; La Coopérative De Rue et De Cirque (2r2c); circusnext a Le Monfort.

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED